**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 21 Hydref 2008 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Alun Wyn Evans, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) Y Cyng. David Richardson, D. Hughes (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr W. Bracwell (Partneriaeth Aberdyfi) Mr Nigel Scott (Clwb Rhwyfo Aberdyfi)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol Harbyrau |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mr Huw Davies | - | Peiriannydd Grwp |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs. Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W. Roy Owen, (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorydd Brian Bates (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Nick Dawson, (Outward Bound), Alf Bowen (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Roger Lawson-Mole (Siambr Fasnach Aberdyfi).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd David Richardson yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2008/09.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2008/09.**

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 4 Mawrth 2008.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

5. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:-

(i) Morwriaeth
(ii) Materion Cyffredinol yr Harbwr
(iii) Digwyddiadau
(iv) Ystadegau Harbwr
(v) Canlyniad Barn Cwsmer
(vi) Cyllidebau
(vii) Strwythur Staffio Morwrol

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

(i) Y gwelwyd lleihad yn y nifer o ddefnyddwyr yn yr aber eleni ond bod hyn yn gyffredinol ar hyd arfordir y Sir. Awgrymwyd efallai bod y tywydd garw dros yr haf a chynnydd ym mhrisiau tanwydd wedi cyfrannu tuag at leihad yn y niferoedd.

(ii) Er bod buddsoddiad sylweddol iawn wedi ei wneud i'r cymhorthion mordwyon, siomedig iawn ydoedd derbyn adroddiad oddi wrth Ty'r Drindod yn datgan nad oedd rhai o'r cymhorthion a'u llusernau yn cydymffurfio â'u gofynion. Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol bod angen cydlynu rhaglen waith cyffelyb i'r un a gyflwynwyd gan Ty'n Drindod er sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau. Tynnwyd sylw'r aelodau at y gost o £6,195.00 ar gyfer cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo ac y byddai'n rhaid ceisio cynllunio ymlaen llaw i'r dyfodol a thynnu allan rhaglen waith dynn i'w gweithredu. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â defnyddio Cwch Dwyfor i ymdrin â'r gwaith, eglurodd y Swyddog Morwrol nad oedd yn gost effeithiol i wneud hyn gan bod angen tri aelod o staff i weithredu'r gwch a'i fod yn ofynnol felly i ddefnyddio contractwr allanol i godi a gosod y cymhorthion mordwyo ond y gallasai staff yr Harbwr ymdrin â'r gwaith cynnal a chadw cyffredinol megis paentio, glanhau, a.y.b.

(iii) Y derbyniwyd cwyn oddi wrth Barc Cenedlaethol Eryri ynglyn â'i methiant i gynnal a chadw adeilad y Ganolfan Groeso yn Aberdyfi oherwydd bod cychod yn cael eu storio wrth ymyl yr adeilad ac yn ei gwneud yn amhosibl i'r gweithwyr gael mynediad at yr adeilad. Addawodd y Swyddog Morwrol y byddai'r Uned Forwrol yn cysylltu â swyddogion perthnasol y Parc Cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer iddynt gael mynediad i gynnal a chadw'r adeilad i'r dyfodol.

(iv) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â chapasiti storio cychod ar y cei, eglurwyd nad oedd lle i fwy o gychod i'w storio ac yn unol â'r Ddeddf Harbwr nid oedd angen cael caniatad cynllunio ar gyfer hyn. 'Roedd hawl i gadw cychod ar y cei cyn belled a bont ddim yn achosi difrod i wyneb y cei.

(v) Adnewyddwyd cwch rheolaeth Harbwr Aberdyfi ar gost of £26,000 ac fe fyddai angen sicrhau bod y cwch yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rheoli cychod a defnydd hamdden eraill yn yr aber. Fe fyddai'r cwch ar gael drwy gydol y flwyddyn ond y byddai'n cael ei storio ar dir sych dros y gaeaf. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn a pha mor hwylus fyddai codi'r gwch i'r aber pan fyddai ei hangen, ni ragwelai'r Swyddog Morwrol unrhyw broblem i'w defnyddio mewn argyfwng gwirioneddol ond na fyddai'n caniatau i un aelod o staff ei gweithredu yn enwedig mewn tywydd garw. Datganodd aelod ei siom bod y cwch rheolaeth wedi cyrraedd yn hwyr yn ystod y tymor ond wedi dweud hynny 'roedd cael cwch rheolaeth yn welliant ac yn ased i'r Harbwr.

(vi) Yng nghyswllt digwyddiadau'r Harbwr, nodwyd lwyddiant Gwyl y Llusern yn ogystal â phenwythnos yr Hwylfyrddau. Nodwyd gan aelod y tebygolrwydd ydoedd mai eleni fyddai'r Gwyl y Llusern olaf i'w gynnal oherwydd teimlai'r trefnwyr bod angen digwyddiad gwahanol ar gyfer flwyddyn nesaf i'w gynnal efallai dros gyfnod o ddau diwrnod ac y byddent yn edrych am gymorth a chydweithrediad yr Uned Forwrol mewn caniatau i osod pabell fawr ar gyfer cynnal cyngherddau.

(vii) Atgoffwyd yr aelodau bod Aberdyfi wedi ennill wobr y Faner Las Ewropeaidd yn 2007 ond mai anhebygol y bydd yn llwyddo i'w derbyn yn 2009 oherwydd rhagolygon yn ansawdd y dŵr. Disgwylir cadarnhad ffurfiol gan Asiantaeth yr Amgylchedd maes o law. Cymerir samplau pob pythefnos gan yr Asiantaeth o un lle penodol rhwng Mai a Medi. Pe byddai'r canlyniadau yn negyddol ar gyfer y Faner Las, golygai i'r Uned Forwrol gyflwyno cais am Wobr Traeth Trefol ar gyfer 2009 sydd yn wobr uchel iawn. Roedd y Swyddog Morwrol o'r farn bod y tywydd garw wedi cael effaith ar sawl traeth yn y Sir. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, 'roedd aelod o'r farn bod dirywiad yng nghyflwr sustem carthffosiaeth a bod problem gyda draeniau wyneb a thir ddraeniad mewn rhannau o Aberdyfi ac o ganlyniad bod llygredd yn cael ei olchi i'r aber. Dylid annog Asiantaeth yr Amgylchedd i gysylltu a thrafod gyda Dŵr Cymru y dirywiad yn eu sustemau carthffosiaeth yn enwedig gan bod methiant i ennill Gwobr y Faner Las yn debygol o gael effaith ar dwrisitaeth ac economi Aberdyfi. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol bod cysylltiad gref iawn yn bodoli rhwng y ddau gorff dan sylw a bod cyfarwyddiadau cyson yn trosglwyddo o un i'r llall.

(viii) tywyswyd yr aelodau drwy'r atodiadau oedd ynghlwm i'r rhaglen gan nodi bod lleihad yn y nifer o Badau Dwr Personol, serch hynny 'roedd y ffigyrau a gofrestrwyd yn Aberdyfi wedi aros yn gyson gyda ffigyrau llynedd. 'Roedd lleihad yn y nifer o gychod pwer a oedd wedi cofrestru yn Aberdyfi gan nodi ei fod yn hanner y nifer a gofrestrwyd yn 2004/05. Edrychwyd ar yr ystadegau angorfeydd, cychod pwer a hwylio yn ogystal â chymhariaethau o ystadegau cychod ymhob Harbwr yn y Sir.

(ix) nodwyd bod lle i 120 o angorfeydd yn Harbwr Aberdyfi ond 'roedd anghytundeb barn ymysg y Pwyllgor ynglyn â'r rhif hwn a theimlwyd bod yr Harbwr yn llawn i'w gapasiti gyda 102 o angorfeydd. 'Roedd yr ardal gyferbyn â'r Clwb Hwylio yn llawn a phe byddir yn caniatau angorfeydd ychwanegol byddai'n golygu i gychod gael eu gwasgu i ardal cyfyng drwy ymestyn y ddarpariaeth i'r Gorllewin. O ganlyniad fe fyddai hyn yn creu problemau i'r hwylio dingi. Nodwyd hefyd bod rhai perchnogion cychod yn talu ffioedd angorfa yn yr Harbwr ond ddim yn gwneud defnydd ohono ac felly yn amddifadu perchnogion eraill o'r siawns i gael angorfa yn Aberdyfi oherwydd 'roedd oddeutu 12 perchennog cwch ar y rhestr aros. Teimlwyd bod angorfeydd gweigion yn peri colled i bentref Aberdyfi o ran economi ac awgrymwyd y dylid ystyried gosod amod ynglyn âg angorfeydd sydd yn cael eu gadael yn wag am gyfnod benodol fel bo modd rhoi cynnig i'r rhai sydd ar y rhestr aros. Mewn ymateb, addawodd y Swyddog Morwrol y byddai'r Uned Forwrol yn adolygu nifer yr angorfeydd yn y misoedd nesaf.

(x) cyflwynir canlyniadau arolwg barn cwsmeriaid i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Mawrth.

(xi) yng nghyd-destun y gyllideb, nodwyd bryder y byddai incwm Harbwr Aberdyfi oddeutu £12,000 yn fyr o'r targed am y flwyddyn ariannol gyfredol. Pwysleiswyd am yr angen i fod yn wyliadwrus gan fod incwm Rhenti Adeiladau unwaith eto yn ymddangos yn uchel iawn ac efallai bod cam godio wedi digwydd a bod angen trosglwyddo'r incwm at bennawd cyllid cywir. Pe byddai hyn yn bod, golygai bod y targed incwm oddeutu £17,972 yn fyr o'r targed sydd yn peri

bryder enfawr i'r Uned Forwrol o gofio yr hinsawdd ariannol sydd ohoni a'r setliad gwael a dderbynnir gan Lywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol.

Gofynnodd aelod a fyddai modd cael glanhau'r traeth gan gwmni masnachol i gael gwared o'r gwymon a'r llanast oedd wedi ei gasglu ar y traeth. 'Roedd coed sy'n cael ei golchi lawr yr aber yn peri pryder o ystyried bod gwyliau hanner tymor yn yr wythnosau nesaf gyda phosibilrwydd o ymwelwyr fod eisiau cerdded ar hyd y traeth. Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol os yw'r llanast yn ddeunydd naturiol megis gwymon y tueddiad ydoedd ei gludo a'i roi ymysg y twyni tywod ond y gellid cyflogi contractwr lleol i symud y llanast arall. Apeliodd ar yr Aelodau iddynt gyfeirio unrhyw bryderon oedd ganddynt ynglyn â materion dydd i ddydd i'r Harbwr Feistr fel bo'r Uned yn ymwybodol ohonynt ac y gellid ymdrin âg unrhyw broblem yn ddi-oed.

(xii) ymhelaethwyd ar y strwythur staffio sy'n cefnogi gwaith yr Harbwr Feistr yn Aberdyfi gan nodi y byddai'r Uned Forwrol yn adolygu sefyllfa gofynion staff tymhorol yn fanwl dros fisoedd y gaeaf. Er sicrhau cymorth digonol yn yr Harbwr dros fisoedd y gaeaf, fe fyddai staff Harbwr Abermaw yn cynorthwyo Harbwr Feistr Aberdyfi yn ystod y cyfnod 1 Hydref hyd at ddiwedd Mawrth 2009.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) a oedd yn bosibl gwneud Harbwr Aberdyfi yn fwy cyfeillgar i'r defnyddiwr drwy osod pontwn arnofiol wrth ymyl y lanfa o ystyried bod arian wedi ei neilltuo ar gyfer cynnal astudiaeath dichonoldeb ar gyfer hyn. Teimlwyd y byddai hyn yn cynnyddu incwm yr Harbwr yn aruthrol drwy gynyddu nifer ymwelwyr. Y gwyn gyffredinol ydoedd bod perchnogion cychod yn eu gweld yn anodd i ddringo i fyny'r ysgol serth sydd ar y cei o'u cychod ac y byddai pontwn arnofiol yn fwy addas i bobl oedrannus. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn A nifer o gwynion a dderbynir ynglyn â diogelwch yr ysgol ar y cei, dywedodd yr Harbwr Feistr nad oedd wedi derbyn cwyn ffurfiol ond bod pobl yn datgan faint mor serth ydoedd.

Aeth y Swyddog Morwrol ymlaen i ddweud bod yr Uned wedi edrych ar gynllun i osod pontwn oddeutu tair mlynedd yn ôl ond penderfynwyd oedi bryd hynny hyd nes fyddai'r cynllun cyflawn arfaethedig o ddatblygiadau'r Harbwr gan Bartneriaeth Aberdyfi yn barod, i osgoi dyblygu darpariaeth, a.y.b.

Esboniodd y Swyddog Morwrol nad oedd tueddiad i gychod symud o un Harbwr i'r llall ac efallai y dylid ceisio eu hannog i wneud hyn er mwyn defnyddio cyfleusterau gwahanol.

(b) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â chynlluniau Partneriaeth Aberdyfi, eglurwyd bod gwedd gyntaf wedi ei gwblhau a'u bod yn cychwyn yr ail wedd ac yn gorfod cyflwyno ceisiadau am gymhorthdal Ewropeaidd ar gyfer datblygiadau'r Harbwr. Rhaid cofio bod cyfnod y cynllun yn 10 mlynedd ac ar hyn o bryd 'roedd trafodaethau cydrhwng llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth Iwerddon yn mynd rhagddo ond bwriad y Bartneriaeth ydoedd cwblhau asesiad amgylcheddol ynghyd â datblygiadau i greu pontwn ychwanegol.

**Penderfynwyd:-** **Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

## 6. MATERION YCHWANEGOL I'W HYSTYRIED YMGYNGHOROL

**(a) Materion a dderbyniwyd oddi wrth cynrychiolydd Clwb Cychod Aberdyfi:**

(i) Cais i lanhau cerrig oddi ar y llithfra oherwydd ei bod yn anodd i gerbydau ac ôl-gerbydau facio lawr y llithrfa a diffyg cael grip

*Mewn ymateb, cydnabyddodd y Swyddog Morwrol y dylai'r llithrfa gael ei lanhau yn ddyddiol ac fe sicrhaodd y byddai trefniadau mewn lle i ymdrin â hyn.*

(ii) Cais i'r Harbwr Feistr barcio ei gerbyd yn rhywle arall yn hytrach nag wrth y llithrfa oherwydd ei fod yn creu anhawster arall i facio lawr yn enwedig pan mae'r cyhoedd yn cerdded heibio heb son am wyliwyr. Awgrymwyd a fyddai modd i'r Harbwr Feistr bacio i'r dde o'i swyddfa ar yr Harbwr.

*Mewn ymateb, cydnabyddodd y Swyddog Morwrol nad oedd y llithrfa yn un hawdd i gael mynediad ac y byddai'r Harbwr Feistr yn fwy na pharod i barcio yn rhywle arall er hwyluso mynediad i'r llithrfa. Nodwyd hefyd bwysigrwydd i gerbydau eraill beidio parcio wrth y llithrfa ychwaith.*

(iii) A fyddai modd cadarnhau lleoliad y beipen ddŵr rwber gan bod son bod un wrth y swyddfeydd ar y ffrynt. Hefo caniatad, a fyddai modd i'r Clwb Cychod ddarparu peipen at ddibenion defnyddwyr y Clwb yn unig.

*Gofynnir i gynrychiolydd o'r Clwb Cychod drafod gyda'r Harbwr Feistr ac y byddai'n ofynnol monitor defnydd.*

**(B) Materion a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Cymuned Aberdyfi**

(i) Posibilrwydd o osod golau yn y Gysgodfan Gyhoeddus wrth ymyl Swyddfa'r Harbwr Feistr

*Mewn ymateb, addawodd y Swyddog Morwrol y byddai'r Uned Forwrol yn ymdrin â hyn. 'Roedd y gysgodfan wedi peri problemau i'r gwasanaeth ers rhai blynyddoedd bellach gyda'r cyhoedd yn ei gam-ddefnyddio fel toiled.*

(ii) Derbyniwyd cais gan Gyngor Cymuned Aberdyfi oddi wrth drigolyn yn gofyn am arwydd i'w osod ar y ddau ben i'r bordiau cerdded ger Pont y Brics yn gofyn i berchnogion cwn sy'n baeddu lanhau ar eu holau.

*Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol y byddai'r Harbwr Feistr yn gweithredu yn unol â'r cais uchod. Yn ychwanegol, eglurwyd bod yr Harbwr Feistr wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar a bod ganddo hawl i roi dirwyon i unigolion a fyddai'n gollwng ysbwriel ac i berchnogion cwn sy'n baeddu ar y stryd.*

(iii) Pont dros y Rheilffordd i Bryn Llestair

Adroddwyd bod un neu ddau o'r astelli ar y bont yn pydru – 'roedd gwaith dros dro wedi ei gwblhau yn y gorffennol ond dylid atgyweirio'r bont yn barhaol.

*Mewn ymateb, 'roedd y Gwasanaeth Morwrol wedi etifeddu cyfrifoldeb dros y bont dan sylw a chadarnhaodd y byddai'r Gwasanaeth Morwrol yn trefnu i adnewyddu'r bont.*

**(C) Cais i ymchwilio i leoliad y bwi traethell ac i gael y cymhorthion ar eu safle yn fuan cyn y tymor**

*Fe fydd yr Uned Forworl yn cynnal arolwg hydrograffic yn yr aber yn gynnar yn 2009 er sicrhau bod y cymhorhion mordwyo ar eu safle cywir. Fe fydd yr Harbwr Feistr yn paratoi rhaglen waith fanwl er sicrhau bod yr holl gymhorthion yn cael eu cynnal a chadw dros fisoedd y gaeaf ac yn sicrhau, pe bydd y tywydd yn ffafriol, bod y cymhorthion ar eu safle cyn y 1af Ebrill 2009.*

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi ymateb y Swyddog Morwrol i'r ymholiadau uchod.**

7. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 3 Mawrth 2008.

**Penderfynwyd** **Derbyn a nodi'r uchod.**

**CADEIRYDD**